


Prawf Pop: Lluosrifau

Enw:



1. Cylchwch y rhifau isod sy'n lluosrifau 2.

41 42 43 44 45 46 47 48 49 50

2. Ysgrifennwch y rheol er mwyn penderfynu os yw rhif yn lluosrif 3.

.....
.....

3. Cylchwch y rhifau isod sy'n lluosrifau 4.

421 422 423 424 425 426 427 428 429 430

4. Ysgrifennwch y rheol er mwyn penderfynu os yw rhif yn lluosrif 5.

.....
.....

5. Cylchwch y rhifau isod sy'n lluosrifau 6.

131 132 133 134 135 136 137 138 139 140

6. Beth yw'r lluosrif cyntaf o 7 sydd dros 150?

.....

7. Cylchwch y rhifau isod sy'n lluosrifau 8.

241 242 243 244 245 246 247 248 249 250

8. Ysgrifennwch lluosrifau 9 rhwng 180 a 200.

.....

9. Cylchwch y rhifau isod sy'n lluosrifau 10.

161 162 163 164 165 166 167 168 169 170

10. Beth yw'r lluosrif cyntaf o 13 sydd dros 100?

.....

11. Beth yw'r rhif lleiaf sy'n lluosrif 5 ac yn lluosrif 6?

.....

Prawf Pop: Polygonau a Llinellau Arbennig

Enw:


1. Beth yw enwau'r siapiau efo'r nifer canlynol o ochrau?

(a) 3 (b) 7 (c) 10


[3]

2. Cylchwch y siapiau isod sy'n bolygonau.


(a)



(b)




(c)




[3]

3. Rhowch enw priodol ar y polygonau canlynol. (Er enghraifft, "pentagon rheolaidd".)


(a)



(b)



(c)




.....
.....

[3]

4. Lluniwch y canlynol.


(a) Llinell lorweddol




(b) Pâr o linellau paralel



(c) Pâr o linellau perpendicwlar



[3]



1. Cylchwch yr eilrifau isod.

81 82 83 84 85 86 87 88 89 90

[2]

2. Rhestrwch y 5 odrif nesaf gan ddechrau o 144.

.....

[2]

3. Beth yw'r eilrif mwyaf y gellir ei wneud efo'r rhifau yma? 8, 3, 4, 7

.....

[1]

4. Gwir neu gau? Mae adio dau odrif gwahanol yn rhoi ateb sy'n odrif.

.....

[1]

5. Cylchwch yr ateb cywir: Pa fath o rif yw 0?

odrif

eilrif

ddim yn odrif nac yn eilrif

[1]

6. Cyfrifwch y symiau canlynol.

(a) 3^2

(b) $2^2 + 4^2$

(c) $10^2 - 6^2$

.....
.....
.....
.....
.....

[3]

(ch) 4^3

(d) $2^3 + 1^3$

(dd) 7^3

.....
.....
.....
.....
.....

[3]

(e) $5^2 + 3^3$

(f) $5^3 - 7^2$

(ff) 8^3

.....
.....
.....
.....
.....

[3]

Prawf Pop: Amser

Enw:

1. Llenwch y bylchau isod.

(a) 2 funud = eiliad

(b) 3 awr = munud

(c) Wythnos = diwrnod

(ch) Mis Ebrill = diwrnod

(d) Mis Awst = diwrnod

(dd) Canrif = blwyddyn

[6]

2. Cwblhewch y tablau canlynol. (Mae'r dyddiadau i gyd yn y flwyddyn 2028.)

Rhifau	Geiriau
5/7/28	
	Mawrth 14eg
15/10/28	
	Medi 20fed

Cloc 12 awr	Cloc 24 awr
3:45 pm	
	01:25
11:23 am	
	21:24

[8]

3. Sawl munud sydd rhwng yr amseroedd canlynol?

(a) 4:10 pm a 4:45 pm

(b) 11:43 am a 12:25 pm


.....
.....

.....
.....


[2]

4. Mae'r clociau canlynol yn dangos yr amser rhywbryd yn ystod y diwrnod ysgol. Ysgrifennwch yr amser yn y cloc 24 awr.


(a)



(b)



(c)



.....

[3]

5. A oedd 1842 yn flwyddyn naid? Eglurwch eich ateb.

.....
.....

[2]


Prawf Pop: Cymesuredd

Enw:


/14

1. Ychwanegwch linellau cymesuredd i'r siapiau isod.


(a)



(b)




(c)




[3]

2. Tywyllwch y nifer lleiaf o sgwariau fel bod y llinellau toredig yn llinellau cymesuredd.


(a)



(b)




(c)




[6]

3. Beth yw trefn cymesuredd cylchdro'r siapiau canlynol?


(a)



(b)




(c)



.....

[3]

4. Cwblhewch y siâp canlynol fel bod y llinell fertigol yn llinell cymesuredd.



[2]

Prawf Pop: Trawsfudo

Enw:

1. Ysgrifennwch y factor colofn ar gyfer y trawsfudiadau canlynol.

(a) Symudwch y siâp 3 sgwâr i'r dde a 5 uned i fyny.

.....

(b) Symudwch y siâp 6 sgwâr i'r dde a 4 uned i lawr.

.....

(c) Symudwch y siâp 2 sgwâr i'r chwith.

.....

(ch) Symudwch y siâp 3 sgwâr i lawr a 7 sgwâr i'r dde.

.....




[4]

2. Sut fyddai'r factor colofn $\begin{pmatrix} -1 \\ -8 \end{pmatrix}$ yn symud siâp?

.....




[1]

3. Trawsfudwch y siapiau canlynol gan ddefnyddio'r factor colofn.



[3]

4. Ysgrifennwch y factor colofn sy'n trawsfudo'r siâp A i'r siâp B yn y diagramau isod.



.....


.....

.....


[3]

1. Pa fath o **droadau** yw'r rhain?

(a)



(b)



(c)



.....

[3]

2. Llenwch y bylchau yn y tabl canlynol.

Math o ongl	Disgrifiad
Ongl Lem	90°
	Rhwyng 90° a 180°
Llinell Syth	Rhwyng 180° a 360°
	360°

[6]

3. Pa **fath** o onglau yw'r onglau canlynol?

(a) 63°



(b) 267°

(c) 94°

(ch) 179°

[4]

4. Pa **fath** o onglau yw'r onglau canlynol?



(a) (b) (c) (ch)

[4]

5. **Enwch** yr onglau yng nghwestiwn 4.

(a) (b) (c) (ch)

[4]


Prawf Pop: Mesur a Llunio Onglau

Enw:


/10

1. Cylchwch yr amcangyfrif gorau ar gyfer maint yr onglau isod.

(a)



(b)



5°

30°

60°

80°


100°

150°


[2]

2. Mesurwch yr onglau isod gan ddefnyddio onglydd.


(a)



(b)



(c)



.....

[3]

3. Lluniwch yr onglau canlynol gan ddefnyddio onglydd a phren mesur.

(a) 47°


(b) 240°

(c) 173°

4. Mesurwch yr onglau canlynol gan ddefnyddio onglydd.

(a) $\hat{A}BC$

(b) $\hat{B}AC$ atblyg











[3]

[2]

Prawf Pop: Cyfrifo Onglau

Enw:

1. Darganfyddwch faint yr onglau sydd wedi'u marcio.
(Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa.)




Prawf Pop: Onglau Mewn Triongl


Enw:

/11


1. Darganfyddwch **faint** yr onglau sydd wedi'u marcio.
(Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa.)



(a)



(b)




(c)


[3]

2. Pa **fath** o drionglau yw'r trionglau isod?


(a)




(c)



(b)



(ch)



[4]


3. Darganfyddwch **faint** yr onglau sydd wedi'u marcio.
(Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa.)

(a)

(b)

(c)


(ch)



[4]

Prawf Pop: Y Cymedr

Enw:



1. Llenwch y bylchau i gwblhau'r camau ar gyfer cyfrifo'r cymedr.



I gyfrifo'r cymedr rhaid darganfod _____ yr holl werthoedd data ac yna _____ gyda'r nifer o werthoedd data.

[1]

2. Dyma'r canrannau derbyniodd 5 dysgwr mewn prawf gwyddoniaeth.

56% 70% 64% 88% 42%

(a) Beth yw'r ganran gymedrig?

.....

[3]

(b) Sawl disgybl gafodd ganran a oedd yn uwch na'r ganran gymedrig?

.....

[1]

(c) Roedd yr athrawes wedi colli paned o de drwy ddamwain ar y chweched papur wrth iddi orffen ei farcio. Doedd dim modd gweld beth oedd y ganran ar y papur, ond mi roedd hi'n gwybod mai 66% oedd cymedr canrannau'r chwe phapur. Beth felly oedd y ganran goll?

56% 70% 64% 88% 42%



.....

.....

[3]

3. Tyfodd Jac blanhigion yn ei dŷ gwydr. Ar ôl wythnos mesurodd eu taldra.

Dyma ei ganlyniadau yn gywir i'r cm agosaf.

Taldra (cm)	Nifer y planhigion	
45	5	
46	8	
47	19	
48	23	
49	12	
50	3	

(a) Beth oedd cyfanswm y planhigion oedd gan Jac?

[1]

(b) Cyfrifwch daldra cymedrig y planhigion yn gywir i'r mm agosaf.


.....

.....

[3]

Prawf Pop: Yr Amrediad

Enw:



1. Llenwch y bylchau i gwblhau'r camau ar gyfer cyfrifo'r amrediad.



I gyfrifo'r amrediad rhaid _____ gwerth _____ o'r gwerth _____.

[1]

2. Gofynnwyd i grŵp o blant faint oedd ei oed.

7 9 5 8 4 7 6 4 8 9

(a) Beth yw'r amrediad ar gyfer oed y plant?

.....

[2]

(b) Beth fydd amrediad y plant yma blwyddyn i heddiw?

.....

[1]

3. (a) Amrediad set o rifau yw 6. Os yw gwerth lleiaf y data yn 3, beth yw'r gwerth mwyaf?

.....

(b) Amrediad set o rifau yw 5. Os yw gwerth mwyaf y data yn 2, beth yw'r gwerth lleiaf?

.....

[2]

4. Mae Luke a Michael yn taflu dartiau at fwrdd dartiau. Dyma sgôr bob un o'u dartiau ar gychwyn gêm benodol.

Luke	60	60	20	60	20	20	60	60	60
Michael	60	5	20	60	60	60	60	1	60

(a) Beth yw amrediad sgorau Luke?

(b) Beth yw amrediad sgorau Michael?

(c) Yn eich barn chi, pwy sydd fwyaf cyson am daflu dartiau yn y gêm hon? Rhaid i chi egluro eich ateb.

.....

(ch) Ar ôl taflu 9 dart yr un, beth yw cyfanswm sgorau

(i) Luke (ii) Michael

(d) Luke sydd i daflu nesaf yn y gêm. O wybod bod angen cyrraedd cyfanswm 501 mewn gêm o ddartiau, faint yn fwy sydd angen iddo sgorio yn y gêm hon?

[6]

Prawf Pop: Siartiau Bar

Enw:

/15

1. Pa **fath** o ddata yw'r canlynol? Rhwch saeth i'r disgrifiad cywir. [6]

- Amser i redeg ras 400 m
- Cyfeiriad (*Address*)
- Poblogaeth Cymru
- Pris cyfrifiannell
- Lliw llygaid
- Pwysau parcel

- Data Ansoddol
- Data Meintiol Arwahanol
- Data Meintiol Di-dor

2. Dyma faint o ddysgwyr sydd ym mhob dosbarth cofrestru ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Aber.

Dosbarth	Dysgwyr
7A	18
7B	12
7E	14
7R	8

Lluniwch **siart bar** i ddangos y data yma. [6]

Faint o ddysgwyr sydd ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Aber? [1]


.....

Cyfrifwch **gymedr** y nifer o ddysgwyr sydd ym mhob dosbarth ym mlwyddyn 7. [1]

.....

Cyfrifwch **amrediad** y nifer o ddysgwyr sydd ym mhob dosbarth ym mlwyddyn 7. [1]

.....



Prawf Pop: Diagramau Amllder

Enw:

Dyma'r nifer o bwyntiau y sgoriodd unigolion yn ystod pencampwriaeth rygbi 6 gwlad 2024.

5, 10, 12, 10, 15, 10, 5, 52, 10, 55,
10, 11, 5, 10, 5, 9, 25, 10, 20, 10,
31, 10, 48, 25, 10, 12, 63, 5, 15, 5



(a) Defnyddiwch y data uchod i lenwi'r tabl amllder isod.

[3]

Pwyntiau	Marciau Rhifo	Amllder
0 – 14		
15 – 28		
29 – 42		
43 – 56		
57 – 70		

(b) Defnyddiwch y data uchod i lunio diagram amllder ar y papur sgwariau. Cofiwch labelu.

[6]





Prawf Pop: Amcangyfrif y Cymedr a’r Amrediad

Enw:

Dyma bwysau (mewn kg) chwaraewyr carfan rygbi Cymru (dynion) yn ystod 2023–2024.

Pwysau (mewn kg) chwaraewyr carfan rygbi Cymru 2023–2024



(a) Defnyddiwch y data yn y diagram amllder i lenwi’r colofnau “Pwysau p (mewn kg)” ag “Amllder” yn y tabl amllder isod.

[2]

Pwysau p (mewn kg)	Amllder		
$80 \leq p < 90$			

(b) Defnyddiwch y tabl amllder uchod i gyfrifo amcangyfrif ar gyfer pwysau cymedrig carfan Cymru.

[4]

.....

(c) Darganfyddwch amcangyfrif ar gyfer amrediad pwysau carfan Cymru mewn cilogramau.

[2]


.....

Prawf Pop: Siartiau Cylch

Enw:

(1) Mae'r 18 dysgwr yn nosbarth cofrestru 7A Ysgol Aber wedi llenwi holiadur trafndiaeth i'r ysgol. Dangosir canlyniadau un o'r cwestiynau yn y siart cylch ar y dde.

Dull teithio i'r ysgol



(a) Sawl dysgwr oedd yn cerdded i'r ysgol?

.....

(b) Sawl dysgwr oedd **ddim** yn mynd mewn car?

.....

[4]

■ Car ■ Bws ■ Cerdded

(2) Isod dangosir niferoedd blwyddyn 7 yn Ysgol Aber.


Dosbarth Blwyddyn 7	7A	7B	7E	7R
Amllder	18	12	13	17

(a) Mewn siart cylch o'r data, cyfrifwch sawl gradd mae un dysgwr yn ei gynrychioli.

..... [2]

(b) Lluniadwch siart cylch o'r data uchod.

[4]



Prawf Pop: Cyfrifo Canrannau

Enw:

/15

1. **Lliwiwch** y ganran o'r siâp a ddangosir.

(a) 50%

(b) 25%

(c) 20%

[3]

2. **Cyfrifwch** y canrannau canlynol.

(a) 50% o 30

(b) 10% o 45

(c) 25% o £32

.....
(ch) 20% o 45

(d) 5% o £140

(dd) 30% o \$50

[6]

3. **Cyfrifwch** y canrannau canlynol.

(a) 34% o £96

(b) 76% o 143 cm

--

--

[6]

4. **Gwiriwch** eich atebion i gwestiynau 2 a 3 gan ddefnyddio cyfrifiannell.

1. Ysgrifennwch y rhifau canlynol mewn **geiriau**.

(a) 56423

(b) 205068

.....
.....
.....

[2]

2. Ysgrifennwch y rhifau canlynol mewn **ffigurau**.

(a) Saith mil a naw

(b) Wyth miliwn, naw deg tri mil a deg

.....

[2]

3. Beth yw **gwerth lle'r** 5 yn y rhifau canlynol?

(a) 28530

(b) 500000

.....

[2]

4. Cyfrifwch:

(a) $53 \times 10 =$ (b) $4.3 \times 100 =$

(c) $0.3 \times 1000 =$ (ch) $232.439 \times 10 =$

(d) $85 \div 10 =$ (dd) $82.3 \div 100 =$

(e) $0.3 \div 10 =$ (f) $43.25 \div 1000 =$

[8]

5. Cyfrifwch:

(a) 43.58×6

(b) $28.42 + 924.83$

(c) $6.5 - 2.37$

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

[3]

Cewch ddefnyddio cyfrifiannell i gyfrifo'r atebion ar y dudalen hon.

- 1. Mae cwmni gwerthu dillad yn cynnal arwerthiant "20% i ffwrdd".
Cwblhewch y tabl canlynol i ddarganfod prisiau'r eitemau hyn yn yr arwerthiant.

Eitem	Pris gwreiddiol	Gostyngiad	Pris yn yr arwerthiant
Trowsus	£30		
Sanau	£12		
Crys-t	£15		
Sgert	£19		

[8]

- 2. Mae Caryl yn benthyc £15,000 gan fanc Barclays ar gyfradd llog syml 6% y flwyddyn.
Mae Caryl eisiau talu'r holl arian yn ôl ar ôl tair blynedd.
Faint o arian sydd raid i Caryl dalu'n ôl ar ôl tair blynedd?

.....

.....

.....

.....

[4]

- 3. Mae Rachel yn derbyn cyflog crynswth £730 yr wythnos.
Rhaid i Rachel dalu 28% o'i chyflog fel treth incwm; yswiriant gwladol a phensiwn.
Beth yw cyflog clir Rachel?

.....

.....

[2]

- 4. Pris ffôn symudol cyn ychwanegu TAW (ar gyfradd 20%) yw £700.
Beth yw pris y ffôn symudol ar ôl ychwanegu TAW?

.....

.....

[2]

- 5. Mae Siwan yn cael 42 allan o 60 yn y prawf gwyddoniaeth.
Pa ganran gafodd Siwan yn y prawf?

.....

.....


[2]

Prawf Pop: Y Pedrant Cyntaf

Enw:

- 1. Ychwanegwch y labeli canlynol i'r echelinau ar y dde: "Y tarddbwynt"; "Yr echelin-x"; "Yr echelin-y".


[3]



- 2. Yn y cyfesuryn (5, 2),
(a) Beth yw'r cyfesuryn-x?
(b) Beth yw'r cyfesuryn-y?

[2]

- 3. Platiwch y cyfesurynnau canlynol ar yr echelinau isod.
(a) (5, 2) (b) (8, 3) (c) (0, 5) (ch) (11, 2)



[4]

- 4. Beth yw cyfesurynnau'r pwyntiau canlynol yn yr echelinau uchod?
(a) **A** = (b) **B** = (c) **C** =

[3]

Prawf Pop: Y Pedwar Pedrant

Enw:


1. Ychwanegwch y labeli canlynol i'r echelinau ar y dde: "Y pedrant cyntaf"; "Yr ail bedrant"; "Y trydydd pedrant"; "Y pedwerydd pedrant".

[2]

2. Ym mha bedrant mae'r cyfesurynnau canlynol yn ymddangos?


- (a) (5, 2)
 (b) (-4, 3)
 (c) (9, -2)
 (ch) (-4, 0)

[4]



3. Plotiwch y cyfesurynnau canlynol ar yr echelinau isod.

- (a) (6, 4) (b) (-2, 4) (c) (5, -3) (ch) (-1, -6)




[4]

4. Beth yw cyfesurynnau'r pwyntiau canlynol yn yr echelinau uchod?

- (a) **A** = (b) **B** = (c) **C** =

[3]



Prawf Pop: Canolbwynt Llinell

Enw:

1. Darganfyddwch ganolbwynt y llinell syth sy'n cysylltu'r parau canlynol o gyfesurynnau.

- (a) (4, 8) a (10, 2) (b) (3, 6) a (9, 3) (c) (1, 2) a (15, 12)

.....

[3]

2. Cyfrifwch:

- (a) $7 + 3$ (b) $7 + -3$ (c) $-7 + 3$

.....

- (ch) $-7 + -3$ (d) $3 + -7$ (dd) $-3 + 7$

.....

[6]

3. Darganfyddwch ganolbwynt y llinell syth sy'n cysylltu'r parau canlynol o gyfesurynnau.

- (a) (5, -4) a (7, 10) (b) (6, 8) a (-2, -2) (c) (-4, 6) a (-8, -4)

.....

[3]

4. Darganfyddwch ganolbwynt y llinell syth sy'n cysylltu'r parau canlynol o gyfesurynnau.

- (a) **A a B**


.....

- (b) **C ag Ch**

.....

- (c) **D ag Dd**

.....



/15

[3]

Prawf Pop: Defnyddio Cyfesurynnau


Enw:

1. (a) Beth yw cyfesurynnau'r pwynt **A**?

(b) Ym mha bedrant mae'r cyfesuryn **C**?
.....

(c) Mae'r pedwar pwynt **A, B, C, D** yn ffurfio petryal. Beth yw cyfesuryn y pwynt **D**?

(ch) Beth yw canolbwynt y llinell syth sy'n cysylltu'r cyfesurynnau **A** ag **C**?
.....
.....
.....
.....



2. (a) Mae'r sgwâr **ABCD** yn cael ei drawsffurfio gan ddefnyddio'r fector colofn $\begin{pmatrix} -3 \\ -1 \end{pmatrix}$. Plotiwch y sgwâr newydd ar yr echelinau ar y dde.

[2]

(b) Mae'r triongl **EFG** yn cael ei drawsffurfio gan ddefnyddio'r fector colofn $\begin{pmatrix} 5 \\ 2 \end{pmatrix}$. Beth yw cyfesurynnau'r triongl newydd?

.....
.....
.....

[3]

